

y dinesydd

Gorffennaf Awst 2004

PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH

Rhif 290

NEWID BYD

Arweiniodd yr etholiadau lleol ar ddydd Iau 10 Mehefin at y newid mwyaf mewn chwarter canrif gyda'r Blaid Lafur yn colli rheolaeth o Gyngor Caerdydd am y tro cyntaf ers 1981.

Roedd y cyngor oedd yn ymadael yn cynnwys 48 Llafur; 18 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol; 5 o Geidwadwyr; 2 Plaid Cymru a 2 Annibynnol. Ar ôl i bethau dawelu ar brynhawn Gwener nid oedd gan unrhyw blaid wleidyddol reolaeth lawn o Gyngor y Brifddinas â'r Blaid Democratiaid Rhyddfrydol â 33 o aelodau yn cymryd lle'r Blaid Lafur (27) fel y blaid wleidyddol fwyaf. Enillodd y Ceidwadwyr 7 o seddau ychwanegol tra bo gan Blaid Cymru dri chynghorydd ar ôl eu llwyddiant cyntaf yng Nghaerdydd (ar wahân i Greigiau) ers llwyddiant Dafydd Huws yn y 1970au hwyr yn y Tyllgoed yn ennill dau o'r tair sedd yng Nglan-yr-afon

Collodd yr unig Gynghorydd Annibynnol a oedd yn ymladd yr etholiad, y cyn brifathrawes Betty Campbell, y sedd yn ward Butetown o ddwy bleidlais i Vaughan Gething, yr ymgeisydd Llafur.

Roedd y blwch pleidleisio yn gyfrifol am chwe aelod o'r cyn Gabinet Llafur yn colli seddau, gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd Mrs Linda Thorne a Peter Perkins a oedd yn gyfrifol am y portffolio Addysg yng Nghaerdydd a De Morgannwg gynt ers 1989 pan ddaeth yn Gadeirydd y Pwyllgor Addysg yn lle Emyr Currie-Jones.

Cadwodd yr Arweinydd Llafur, Russell Goodway, ei sedd yn Nhrelái o drwch blewyn, 62 o bleidleisiau, a chyflwynodd ei ymddiswyddiad o fewn 24 awr.

Mae gwleidyddiaeth Cyngor Caerdydd yn y pair heb yr un blaid yn rheoli'n llawn. Mae'r misoedd nesaf, neu'r pedair blynedd yn arwain at yr etholiad nesaf hyd yn oed, yn dibynnu i raddau helaeth ar sut fydd y pedair plaid wleidyddol, a'u harweinwyr, Rodney Berman (Democratiaid Rhyddfrydol), Greg Owens (Llafur), Gareth Neale (Ceidwadwyr) a Delme Bowen (Plaid Cymru) yn dysgu cyd-fyw â'i gilydd er lles Caerdydd a'i thrigolion.

Cyfnod diddorol.

Llwyddiant Ysgol Uwchradd Caerdydd



Daniel O'Grady, Beth Smith a Patrick Bidder

Y gamp lawn i Nerys Roberts

Daeth myfyrwr yr Ysgol Uwchradd Caerdydd yn gyntaf, yn ail ac yn drydydd yng nghystadleuaeth medal y dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Patrick Bidder oedd ar y brig gyda Beth Smith yn ail a Daniel O'Grady yn drydydd.

Yn ôl y beirniaid roedd gwaith buddugol Patrick, Y Ffidlwr, yn dangos "gafael cadarn ar iaith ein gwlad a'i lle yn nyfodol personol y cystadleuydd. Dyma waith

ysgrifenedig a sgwrsio mwya cyflawn ar draws ystod o ffurfiau yn y gystadleuaeth. Mae ganddo iaith naturiol, bywiog a llawn hyder"

Patrick ydi prif fachgen Ysgol Uwchradd Caerdydd eleni ac mae wedi derbyn cynnig amodol i Goleg Sant Ioan Caergrawnt i astudio Athroniaeth. Mae'n aelod o Gerddorfa Genedlaethol Ieuenticid Cymru. Er mwyn gwella ei Gymraeg mae'n ymarfer siarad efo disgyblion o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Bu hon yn gystadleuaeth arbennig o ffrwythlon i Ysgol Uwchradd Caerdydd ers rhai blyneddod bellach. Mae llwyddiant eleni yn binacl ar record rhagorol Ysgol Uwchradd Caerdydd ac yn arbennig gwaith ymroddgar ac arweiniad diflino Pennaeth Adran y Gymraeg, Mrs Nerys Roberts. Dros y blyneddoddi diwetha mae myfyrwr Nerys wedi sicrhau tri cyntaf, chwech ail a dau drydydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Tipyn o gamp. Llongyfarchiadau i Nerys a'r myfyrwr.

Dymuna Patrick ddiolch i'w athrawes, am ei hanogaeth a'i chefnogaeth bob amser i wneud yn siwr ei fod yn parhau a'i addysg yn y Gymraeg.

Eisteddfod

31 Gorffennaf - 7 Awst

Parc Tredegar, Casnewydd
Cystadlaethau, Seremonïau,
Arddangosfeydd, Celf a Chrefft,
Theatr y Maes a llawer iawn mwy

MAES b

Clwb TJ's Casnewydd ac Arena Byw
y Ddinas. - y grwpiau diweddaraf bob
nos am 9pm

maes c

Clwb Whiteheads ger Parc Tredegar
llenydda, chwerthin, dawnsio, yfed,
cerddi, comedi, crac, joio bob nos am
8pm

www.eisteddfod.org

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Cyhoeddir Y Dinesydd gan Bwyllgor Y Dinesydd.

Fe'i cysodir gan gweHendre a'i argraffu gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Golygydd y rhifyn hwn:

Peter Gillard

Golygydd y rhifyn nesaf:

D. Bryan James

NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC

Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Medi 2004

cyn 20 Awst at:

D. Bryan James, 52 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QB

(Ffôn: 029-2056-6731; e-bost: db.james@ntlworld.com).

neu gol@dinesydd.com

neu at Gadeirydd Pwyllgor Y Dinesydd:

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd,

Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost:

JamesEW@caerdydd.ac.uk).

CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James. (Gweler uchod)

DERBYN A DOSBARTHU COPIAU

Os ydych am dderbyn Y Dinesydd drwy'r post, neu am gynorthwyo gyda'r doosbarthu cysylltwch â CERI MORGAN, 43 Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CF14 3BZ Ffon: 029 20621634. e-bost: ceri33@btopenworld.com

HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopiau o bob rhifyn o'r Dinesydd yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas.

Os ydych am hysbysebu yn Y Dinesydd y mis nesaf cysylltwch â CERI MORGAN, 43 Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CF14 3BZ Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL

Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r Dinesydd. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno a'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch a Chadeirydd Pwyllgor Y Dinesydd (Gweler uchod)

CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad Y Dinesydd yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato yn 43 Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CF 14 3BZ Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

APÊL Y DINESYDD

Mae pobl yn dal i anfon cyfraniadau i'r Apêl a dydy hi ddim yn rhy hwyr i chi anfon eich cyfraniad tuag at y Gronfa!

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

I'R CYHOEDDIAD HWN

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


0845 6076070

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com



CROESAIR Rhif 49 gan Rhian Williams



Ar draws

- 'Clywais lawer _____
Fod rhyw boen yn dilyn cariad' (JB) (3,1,6)
- Gorchudd angharedig (3)
- Edrych am bryfn - dim diolch! (7)
- Ffeindio smotiau mewn gwobr echrydys (4)
- Y Teifi heb darddiad mewn dôl niweidiol (7)
- Symud mewn dŵr o Fôn i ferw! (5)
- Nwy - ond dim yn y nen! (4)
- Yn ymfrostio yn Lloegr ynglŷn â'r ddiod (4)
- Cytuno am ddim â Diana fach (5)
- Erfin ac us yn cyfuno yn lluosog (7)
- Mae'n tywyllu ar Siôn druan (4)
- 'Fwythdew fytheiaid! Fflachiog yw eu paent
Yng nghyrelbryngau'r broydd, ond mor sobr
Eu moes a'u hymarweddiad â phetaent
Mewn duwiol gystadleuaeth am _____ (RWP)
(3,4)
- 'A oes o'ch deil o hyd mewn _____ a chalon
Hen bethau angofiedig teulu dyn? (Waldo) (3)
- Tref i ddynion gwyllt ond destlus (10)

I Lawr

- 'Nid oes _____ mwyach
Am drysorau gwag y byd (WW) (5,5)
- O'r Fenni ag un dim daw duw'r môr (7)
- Mae dechrau slic i'r ceidwadwr a'i chwedl (5)
- Chwythu o flaen tyrfal! (6)
- Sgotyn yw Albert bach rwan, rywsut (7)
- Bod â dim awch ar yn ail ond heb fod yn sâl (3)
- Crefft yw dechrau ceisio efelychu lodes fach (4)
- '_____'
Ti yw tegwch nef y nef' (WW) (5,5)
- ... heblaw ei roddi o gwmpas diwedd Mawrth (7)
- Gwasgu ar Robert i roi gofod o'i gwmpas (7)
- A yw dyn heb ben a barf frith yn ddymunol? (2, 4)
- Gofod di-ddiwedd yn creu twll du, efallai (4)
- 'O _____ llen, sancteiddiaf lys y nef
Ac enwau'r llwythau ar ei ddwyfron Ef (JH) (4,1)
- Arwydd amnaid yn Lloegr (3)

**Atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina,
Caerdydd. CF14 6AN**

i gyrraedd erbyn 31 Gorffennaf 2004.

Croesair 48

Derbyniwyd 9 o gynigion a'r cyfan yn gywir. Ymddiheuriadau am y cliw coll! Danfonir y tocyn llyfr i Delyth Dumsford, 80 Heol y Deri, Rhiwbina. Cafwyd yr atebion eraill gan Rhiannon Evans, Gwenda Hopkins, H.O. Hughes, Idwal Hughes, Dilys Pritchard-Jones, Buddug Roberts, Huana Simpson a Delwyn Tibbott.

YR WYL YN HWYL YN YR HAUL

“Mi fydd heddiw’n braf a chynnes”.

Mae clywed geiriau felly ar raglen Y Post Cyntaf yn ddigon i lonni calon unrhyw un, ond yn enwedig trefnwyr Gŵyl Mudiad Ysgolion Meithrin Caerdydd eleni. Daeth 15 o gylchoedd ynghyd; 500 o blant y cychoedd, eu brodyr, eu chworydd, a – diolch byth – eu gofalwyr a’u rhieni!

Fel y gŵyr darllenwyr Y Dinesydd, prif faen tramgwydd caredigion yr iaith yn y brifddinas yw prinder cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg y tu hwnt i furiau’r cylch a’r ysgol. Bwriad yr ŵyl yw dangos i blant ifanc bod y Gymraeg yn iaith ar gyfer cymdeithasu.

Roedd hefyd yn gyfle i nifer ohonyn nhw ymweld ag Amgueddfa’r Werin am y tro cyntaf, gyda chreaduriaid ffarm Llwyn yr Eos yn arbennig o boblogaidd. Yn ogystal â’r rheini, trefnwyd atyniadau arbennig ar gyfer y plant. Roedd dau storiwr, Mansel Thomas a Michael Harvey o’r Tyllgoed yn creu arswyd a digrifwch, pypedau Vicky Edmunds yn ŵyl ynddynt eu hunain, Megan Evans a’r Criw Byw Bach yn fywiog iawn, a Franco’r *mime artist* yn mudchwarae’n hynod. Ac roedd pob un ohonyn nhw’n perfformio yn y Gymraeg (ar wahân i’r *mime artist*, ond mi gafodd faddeuant). Ar ddiwedd y cyfan, daeth pawb ynghyd ar gae Cilywent i gydganu caneuon y cychoedd, gyda Gwenda Owen yn arwain gyda asbri.

Diolch i bawb a fu mor weithgar yn sicrhau diwrnod i’w gofio – a’r cyfan, fel yr addawodd y Post Cyntaf, o dan haul crasboeth!

Huw Roberts.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Llwyd a Lisa Owen ar eu priodas ym Mae Cemaes ar 5 Mehefin 2004. Cafwyd Penwythnos gwych ynghanol frindiau a pherthnasau.



Rygbi

Ym myd y bêl hirgrwn mae Ysgol y Wern wedi profi llwyddiant ysgubol yn ddiweddar. Cyrhaeddodd y tîm rygbi 10 bob ochr y rownd derfynol yng Nghystadleuaeth Genedlaethol yr Urdd ar Faes Parc y Strade ym mis Mai. Yn dilyn y llwyddiant yn Llanelli aeth y tîm ymlaen wedyn i ennill Cwpan Sinclair sef Cwpan Rygbi Ysgolion Caerdydd. Da iawn chi fechgyn!

Braint fawr oedd cael clywed fod Ieuan Matthews (Blwyddyn 6) wedi cael ei ddewis i chwarae rygbi i dîm Cymru mewn cystadleuaeth ryngwladol yn yr Eidal.



Ieuan Matthews yn gwisgo crys Cymru. Mae Ieuan hefyd yn chwarae i dîm Dwyrain Cymru.

Hoci

Eleni mae tîm hoci’r ysgol yn amddiffyn eu teitl fel pencampwyr Cymru. Maent unwaith eto eleni wedi llwyddo i gyrraedd y Rownd Olaf a fydd yn cael ei chynnal yn y Dre Newydd ym mis Gorffennaf. Pob lwc i’r tîm.

Rhes gefn – Jacob Eynon, Rhys Davies, Matthew Taylor, Dewi Roblin, Morgan Harries.
Rhes flaen – Catherine Hughes, Sarah Barker, Jeni-Mared Thomas, Nia Maclean ac Emma Gowman.

Ysgol y Wern



Y tîm rygbi yn dathlu.

Rhes gefn – Joe Rapson, David Young, William Roberts, Matthew Taylor, Kieran Brunner, Ieuan Matthews, Tathan McShane, Llŷr Johnson. Rhes flaen – Rhys Broad, Dafydd Benham, Ieuan Benham.

Sgïo

Mae Jeni-Mared Thomas (Blwyddyn 6) wedi bod yn llwyddiannus iawn ar y llethrau. Hi yw Pencampwraig Sgïo Cymru. Llongyfarchiadau mawr i ti.

Diogelwch y Ffordd

Am y bumed flwyddyn yn olynol Ysgol y Wern yw Pencampwyr Diogelwch y Ffordd Caerdydd. Yn dilyn eu llwyddiant ysgubol yn y Sir, aeth y tîm ymlaen wedyn i gystadlu yn erbyn timoedd De Cymru ym Mhenybont. Llwyddodd y tîm i ddod yn ail. Tipyn o gamp! Llongyfarchiadau i aelodau’r tîm sef Carys Jones, Louis Evans, Maisy Beard, Siôn Mullane a Matthew Jones.



Newyddion

Canolfan Newydd yr Urdd yng Nghaerdydd

Fe fydd Canolfan newydd yr Urdd yn cael ei leoli tu mewn i adeilad newydd Canolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd ac mae bron yn barod i groesawu plant a phobl ifanc o bob gwr o'r wlad i aros ynddi. Bydd lle i 150 o letywyr i aros yno o dan arweiniad Alun Davies, Cyfarwyddwr newydd y Ganolfan a fu, cyn ei apwyntiad, yn Bennaeth Gwersyll yr Urdd yng Nglanllyn. Eisoes fe dderbyniwyd ceisiadau i aros yn y Ganolfan dim ond ychydig ddyddiau ar ôl yr agoriad swyddogol a ddisgwylid ym mis Tachwedd y flwyddyn hon. Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2005 yn y Ganolfan hon a'r bwriad yw i gynnal yr Eisteddfod yno bob pedair blynedd.

Cinio Canol Dydd Llwyddiannus

Diolch i ymdrechion Huw a Siân Thomas, Pantmawr, fe godwyd dros £1,200 o bunnoedd tuag at gronfa Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd pan gynhaliwyd Cinio Canol Dydd yn eu cartref ar Ddydd Sadwrn 12 Mehefin. Daeth tua deg a thrigain ynghyd i fwynhau'r cinio a'r gwmniaeth yn heulwen yr haf. Mae Huw a Siân am ddiolch i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw ffordd i sicrhau llwyddiant y dydd.

Apwyntiadau yn S4C

Mae dau olygydd comisiwn wedi'u penodi gan S4C sef Lowri Gwilym a Ceri Sherlock. Bydd Lowri Gwilym yn dod at S4C o BBC Cymru ac fe fydd yn gyfrifol am gynnyrch dogfenol a materion cyfoes y sianel tra bydd Ceri Sherlock yn canolbwyntio ar ddatblygu ochr gerddorol y sianel. Llongyfarchiadau i'r ddau ar eu hapwyntiadau.

Cantorion Cymru'n Cystadlu

Cynhaliwyd Cystadleuaeth Cantorion Cymru ar 7 Mehefin yng Nghaerdydd i ddewis cynrychiolydd ein gwlad i Gystadleuaeth Canwr y Byd a yn Neuadd Dewi Sant yn 2005. Yr enillydd oedd Camilla Roberts o Wrecsam. Longyfarchiadau iddi hi.

Llywydd newydd i Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru

Brodor o Lanllyfni, Gwynedd fydd Llywydd newydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru sef James Knight. Pob hwyl iddo yn ei swydd.

Anrhydeddu

Llongyfarchiadau i John Walter Jones, Rhiwbina, cyn Brifweithredwr Bwrdd yr Iaith ar dderbyn yr OBE am ei waith gyda'r Bwrdd ers ei sefydlu un mlynedd ar bymtheg yn ôl. Hefyd llongyfarchiadau am ei urddo â'r wisg wen gan yr Orsedd.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Lyn Osborne, Ystum Tâf ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar 19 Mehefin.

Pennaeth Newyddion

Llongyfarchiadau i Bethan Price, Llandaf ar ei swydd newydd fel Pennaeth Newyddion BBC Bangor.

Dyfarnwr Pêl-Droed o Fri

Llongyfarchiadau i Hywel Price, Llandaf ar ennill tlysau wrth gael ei ddewis yn Ddyfarnwr Pêl Droed y Flwyddyn yn ardal Caerdydd.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Conway ac Olga Davies, Pantmawr, Rhiwbina ar ddathlu eu priodas aur ar 31 Mai.

Gweithio yn Hong Kong

Dymuniadau gorau i Iwan Walters, mab Iolo ac Eiryl Walters a brawd i Aled, sydd yn gyfreithiwr gyda chwmmi Freshfields yn Llundain ac sydd wedi mynd i weithio am ddwy flynedd i gangen y chwmmi yn Hong Kong.

Priodasau

Llongyfarchiadau i Rhodri Evans ac Amy Latham ar eu priodas yng Ngwesty'r Manor Park yn Llanisien ar 4 Mehefin. Mae nhw wedi ymgartrefu'n yr Eglwys Newydd bellach.

Llongyfarchiadau i Huw Harries a Kristen Flood ar eu priodas yng Nghapel Minny Street ar Ddydd Sadwrn 19 Mehefin. Mae nhw wedi ymgartrefu'n ym Mhontcanna.

Llongyfarchiadau i Llwyd a Lisa Owen ar eu priodas ym Mae Cemaes ar 5 Mehefin 2004. Cafwyd penwythnos gwych ynghanol ffrindiau a pherthnasau.

Llongyfarchiadau i Alun Gwyndaf Owen, Llandaf a Tracey Williams, Parc Victoria, ar eu priodas ym Mhortmeirion, Gwynedd ar 17 Mai.

Wawffactor

Ydych chi'n ysu am fod yn seren bop? Bydd clyweliadau agored ar gyfer y rhaglen *Wawffactor* yn cael eu cynnal ddydd Mercher, 21 Gorffennaf, ym mhabell S4C ar faes y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd, rhwng 4 a 6 y prynhawn. Rhaid cofrestru ym mhabell S4C. Manylion pellach: 029-2072-6726 (neu c y s y l l t w c h a g alfredo@alfrescotv.co.uk).

CYMDEITHAS GOLFF Y DDINAS

Ar ddydd Mercher, 2 Mehefin, cynhaliwyd Cystadleuaeth Flynyddol y Gymdeithas Golff ar gwrs ysblennydd Southerndown. Roedd yn ddiwrnod braf a 22 yn cystadlu am y gwobrau a noddwyd gan chwmmi W.H. Ireland.

Yr enillydd oedd Mathew Preece, gyda Ceri Preece yn ail a Peter Gillard yn drydydd. Mathew gafodd y wobwr am fod agosaf at y fflag a Ceri y wobwr am y dreif hiraf. Cyflwynwyd y gwobrwyon gan Dafydd Hampson Jones mewn glwedd yn y clwb y noson honno.

YR URDD

Taith Yr Urdd i Wlad Pwyl

Mae criw o chweched dosbarth ysgolion Cymraeg De Cymru yn mynd allan i Wlad Pwyl ym mis Awst i wneud gwaith gwirfoddol mewn cartrefi plant. Mae anghenion y cartrefi yn fawr iawn, a rydan ni'n awyddus i fynd a gymaint o roddion gyda ni a phosib o Gymru. Rydan ni'n chwilio am deganau addysgol neu lyfrau Saesneg hawdd i blant i fynd gyda ni, felly cyn i chi fynd â nhw i'r sêl gist car - meddyliwch eto! Cysylltwch gyda fi - James@urdd.org neu ar 02920 803354 os oes ganddoch unrhyw roddion i wneud. Diolch!

Chwilio am chwaraewyr Pêl-droed

Mi fydd tîm Pêl-droed yr Urdd yn sefydlu tîm newydd ym mis Medi, i chwarae yng nghynghrair Caerdydd pob bore Sadwrn. Rydyn ni'n chwilio am chwaraewyr sydd ar fin mynd mewn i flwyddyn 3 o ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd, felly os ydych chi'n ffansio'ch hun fel y Giggs neu Earnshaw nesa, cysylltwch gyda'r Urdd - 02920 803350

Ysgol Pêl-droed Caerdydd - Haf 2004

Mae'r Urdd yn trefnu pythefnos o bêl-droed i blant ysgolion cynradd yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r sesiynau yn rhedeg o 10.00yb - 12.00 a 1.00yp - 3.00 yn dechrau ar y 19 o Orffennaf, ar gae astro Leckwith. Mi fydd digon o hyfforddwy'r profesiynol ar gael i gwella eich sgiliau. Am fwy o wybodaeth cysylltwch - 02920 803354 neu James@urdd.org

Gweithgareddau Ysgolion Uwchradd - Haf 2004

Trip Alton Towers i flynyddoedd 9 a 10, cwrs 'scuba diving' i flynyddoedd 7-11. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trudy Chard ar 02920 405499.

Trip yr Urdd i Sbaen.

Ar y chweched o Awst mi fydd chwedeg o ddisgyblion blwyddyn naw a deg o ysgolion Y Cymer,

YSGOL PENCAE YN DIDDANU CLWB HAMDDEN



Mr Howard Spriggs, Cadeirydd Clwb Hamdden Caerdydd, yng nghwmni plant Ysgol Pencae. Bu'r grŵp yn diddanu aelodau'r clwb yng Nghapel Minny Street ym mis Mehefin. Mrs Judith James and Mrs Rhian Williams sy'n dysgu'r plant.

Cofnodi Ymddeoliad

I gofnodi ymddeoliad Brynmor Jones, rhoddodd wasanaeth oes fel llyfrgellydd yn Llyfrgell y Ddinas, Caerdydd, dyma englyn o waith y prif-fardd Idris Reynolds - cyfaill o'r un filltir sgwar â Bryn.

'Yn ei ardd nid yw'n hwyrdydd
- i weithiwr
A ddaeth fel llyfrgellydd
Â chynhaef Llwyndafydd
Ac erwau ei dad i Gaerdydd'

Llongyfarchiadau hefyd i Brynmor gan i'r Orsedd ei anrhydeddu gyda'r Wisg Wen.

Glantaf Plasmawr a Bro Morgannwg yn mynd ar wyliau i Sbaen am wythnos.

Yno mi fydd pawb yn cael cyfle i ddod i adnabod ei gilydd wrth inni rannu'r profiadau i gyd. Ar y daith fe gawn gyfle i fynd i weld y Nou Camp - cartef tîm pêl-droed Barcelona, un o dimau a chaeau enwocaf y byd, ymweliad a'r Eglwys Gadeiriol Sagrada Familia a'r Stadiwm Olympaidd yn Marcelona, trip i Port Aventura - un o Barciau thema fwyaf Ewrop a thaith i Waterworld, parc mawr dwr.

Mi fyddwn yn aros yng ngwersyll "Club Aire Libre" yn ardal Tossa de Mar, mewn cabanau pren, cyffyrddus a diogel wrth ymyl y môr.

Dim amser? Dim dyfodol?
O dan bwysau? **Wedi cael**
llond bol? Wedi diflasu ?



Cwmni rhyngwladol iechyd naturiol yn cynnig y cyfle i bobl egniol a brwdfrydig rhedeg eu busnes eu hun.

Cyfle i ennill ail gyflog heb orfod amharu ar eich cyflog na'ch gyrfya bresennol.

Gweithio o adref.
Dewiswch eich oriau.
Hyfforddiant a chefnogaeth heb ei ail.

Cysylltwch â ni yn syth
01656 880981
07966 313 609

neu e-bostiwch ni
naturalhealth@broadhorizons.info
Safle we:
www.broadhorizons.info

TE A MEFUS - A LESOTHO?

Beth sydd wrth wraidd ein hoffter ni i gyd am fefus? Mae sôn am “mefus a hufen” yn tynnu dŵr i'r dannedd ac “Oooh” fawr mewn ymateb. A hyd yn oed heddiw, pan fod mefus ar gael bron drwy gydol y flwyddyn, mae'r ddysgl ddeniadol hon yn gysylltiedig, gan amlaf, a dyddiau “hir melyn tesog” a the ar y lawnt.

Ond eleni, ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 17fed, bydd pobl Cymru benbaladr, yn cael gwahoddiad i fwynhau'r ffrwyth yma, wrth gefnogi cynllun codi-arian ar gyfer y Mudiad Cenedlaethol – Dolen Cymru.

Sefydlwyd Dolen Cymru (Rhif Elusen Cofrestredig. 516493) yn agos i ugain mlynedd yn ôl – mudiad cenedlaethol i estyn help llaw a chyfeillgarwch i wlad fach arall oedd yn dechrau datblygu – i sefyll yn gadarn wrth ochr y wlad honno wrth iddi frwydro i dynnu 'i hun uwchlaw'r anfanteision sydd yn ei dal yn ôl. Y wlad a ddewiswyd yw Lesotho yn Neheudir Affrica, - gwlad fach sydd bron yr un maint a phoblogaeth a Chymru, gyda nifer o gyffelybiaethau diwylliannol a daearyddol. Mae Dolen Cymru yn dal i fod yr unig wlad yn y byd sydd wedi gefeillio yn swyddogol a gwlad arall trwy ei Uchel Gomisiwn.

Trwy gydol yr ugain mlynedd diwethaf, mae'r dolennau rhwng y ddwy wlad wedi cryfhau a dyfnhau. Erbyn heddiw mae 50 o ysgolion wedi eu dolennu ag ysgolion yn Lesotho; mae gan holl ysgolion cynradd Cymru y cyfle i ddysgu am ei gefeillwlad trwy astudio'r pecyn addysgiadol “Khotso”. Yn ddiweddar, aeth tîm o arbenigwyr iechyd allan i Lesotho o Gymru, a buont yn hyfforddi 1,000 o weithwyr iechyd yn y pentrefi yno. Gwnaed casgliadau trwy Gymru gyfan am lyfrau darllen i blant ysgol Lesotho a hefyd blancedi. Cafwyd ymweliadau gan weithwyr ieuencid, arweinyddion crefydd, arbenigwyr mewn addysg, yr amgylchfyd, chwaraeon, cerddoriaeth, HIV/Aids, mudiadau gwragedd a chynghorwyr llywodraeth. Maent i gyd yn

cyfnewid syniadau a chynnig help ymarferol.

Y mae Dolen Cymru yn ymateb i'r alwad honno ac i bryderon y niferoedd sydd wedi bod allan yno, trwy drefnu Diwrnod Cenedlaethol i Lesotho. Ar Orffennaf 17fed, galwn ar holl bobl Cymru i drefnu “Te Mefus a Hufen” drwy'r wlad i gyd, er mwyn galluogi'r ddolen unigryw hon i gario ymlaen a'i gwaith, ac i gynyddu y nifer o brosiectau y mae'r mudiad hwn yn eu gwneud ymhlith pobl hyfryd y Basotho yn y “Deyrnas yn yr Awyr”.

Hoffem weld gweithgareddau yn cael eu trefnu trwy Gymru gyfan, - mewn neuaddau pentref, cymuned ac eglwys, mewn ysgolion a chartrefi'r henoed, mewn ysbytai, eglwysi a swyddfydd, ar lawnt yr ardd ac ar sgwâr y dref. Fe fyddai'n weddol hawdd i drefnu achlysur ond bydd angen cynllunio o flaen llaw.

Os hoffech gymryd rhan yn y cynllun cenedlaethol hwn i helpu un o wledydd tlotar byd, anfonwch am becyn awgrymiadau (mae hyn yn bwysig) i'ch helpu chi i drefnu'r Te Mefus a Hufen, oddi wrth Dolen Cymru, 128 Y Gyfnewidfa, Mount Stuart Square, Caerdydd CF10 5ED.

Ac os nad ydych yn gallu trefnu te, efallai hoffech chi anfon cyfraniad i'r Swyddfa yn y cyfeiriad uchod. Diolch o galon i chi am unrhyw gefnogaeth bosibl.

YN EISIAU

Person i hebrwng 3 o blant i'r ysgol ac yn ôl.

Pob dydd o Fis Medi 2004.

Oriau: 7.45-9.15 y.b.

a 3.00-5.00 y.h.

Defnydd o gar yn angenrheidiol

Am fwy o wybodaeth

cysylltwch â:

Non Wilshaw (029) 20308950

neu: non.w@ntlworld.com

Ysgol Pen-y-Garth, Penarth

Cofnodwn gyda thristwch na ddychwelodd Mr Peter Davies i'r ysgol ar ôl gwyliau hanner tymor. Bu'n bennaeth ar yr ysgol ers 1995 a bu'n gweithio'n ddyfal i greu ysgol lwyddiannus. Rydym fel ysgol yn gwerthfawrogi gwaith caled Mr Davies a dymunwn yn dda iddo yn y dyfodol.

Fe godwyd bron i fil o bunnoedd i'r ysgol yn ddiweddar drwy werthu gwaith celf a lluniau a wnaed gan y plant a hefyd drwy ymweliad yr athletwr Jamie Baulch i'r ysgol. Bydd yr arian yn mynd tuag at brynu celfi newydd ar gyfer y neuadd ginio. Mae'r ysgol hefyd wedi cyflwyno bron i £500 i elusen Super Schools.

Trefnwyd i'r plant gael nifer o ymwelwyr i siarad â nhw ar bynciau amrywiol iawn, sef yr Heddwas Cymunedol, PC Siân James yn sôn am ddiogelwch â phobl ddieithr, Trefnydd Cenedlaethol Cyswllt Cymru a Lesotho, Mr Gwenallt Rees yn sôn a dangos ffilm am Lesotho a Mr Richards, tadcu un o'r plant yn siarad am ei brofiadau o'r ail ryfel byd.

Llongyfarchiadau i Olivia Richards ar gael ei choronni yn Bencampwraig Gwyddbwyll De Cymru yn ddiweddar ym Merthyr Tudful ac i Gareth Davies am ennill lle yng Ngharfan Rygbi Saith Bob Ochr Dwyrain Cymru – mae'n barod yn nhîm llawn Dwyrain Cymru.

Llongyfarchiadau hefyd i dimoedd pêl droed a rygbi bechgyn a merched yr ysgol a fu'n llwyddiannus yn ddiweddar.

www.dinesydd.com

Cyfle i chi ddarllen ôl-rifynnau o'r **Dinesydd**



Lesbiaidd, Hoyw, â Phroblemau Tai? Ffoniwch ni!

Yn ddiweddar fe gafwyd bore croissants a phobl yn annerch mewn ystafell swanc yn Neuadd y Ddinas i lansio a chrosawu llinell ffôn gymorth i lesbiaid a hoywon â phroblemau tai.

Roedd y siaradyddion gwadd yn cynnwys Edwina Hart (y Gweinidog), dau gyfarwyddwr grwpiau pwysig iawn o fewn y byd lesbiaid a hoywon (David Lynch o Gaerdydd o ran Terence Higgins a Richard o Gaint o ran Albert Kennedy), gwirfoddolion Triongl (Matt a Siâms), Rachel rheolydd Triongl a Bob 'Übersturmlieutenant' Lloyd (ein Llyw Pennaf). Daeth JJ o Shelter a Roy o Ryddhad Digrif, ein partneriaid a'n harianyddion yn y drefn honno, i annerch hefyd.

Cafodd y croissants eu gweini am ddeg gyda phaned ond roedd pobl wedi dechrau cyrraedd cyn hynny. Am ddeg agorwyd y llifddorau ac roedd pobl yn dechrau heidio atom ni, rhai hen wynebau cyfarwydd ac eraill dieithr a difyr. Roedd y gwirfoddolion yn sefyllian o gwmpas yn y drws yn barod eu cyfarchiad ac yn barotach eu pecynnau gwybodaeth. Pan gyrhaeddodd Edwina'n gynt na'r disgwyl ac eistedd yn urddasol tu cefn i'r bwrdd top fel y ddynes bwysig ydyw, dechreuodd ni feidrolion bendroni a ddylem gychwyn y sioe'n gynt ai peidio.

Ond nid oedd yn rhaid i ni ddrysau ein pennau yn rhy hir am fod y sefyllfa rywsut yn penderfynu drosom. Gan ddilyn arweiniad Edwina roedd y siaradyddion eraill fel plant hwyr i'r wers wedi ymffurfio rhes dawel tu ôl i'r bwrdd top. A chan gymryd hyn fel arwydd o rywbeth nad ydoedd mewn gwirionedd roedd y gynulleidfa wedi ymdawelu. Ond yn fwy nac ymdawelu roedd y gwrandaiddion yn syllu'n hypnotig ar y panel gan ddymuno'n galed iawn bod rhywbeth yn digwydd drwy nerth eu hewyllys dorfol. Fe'm hatgoffwyd o olygfa olaf The Birds gan Hitchcock. Ac felly gan gamu'n ara deg ac yn ddistaw ddistaw bach ymlwybrais tuag at y bwrdd top gan ddal f'anadl. Fe'i cyrhaeddais yn ddiogel ac anadlu'n rhydd eto.

Roedd yr areithiau'n fyr ac yn fachog ac er bod cynifer o siaradyddion roedd y cyfan ar ben ymhen deugain munud. Ymhlith y geiriau doeth a draddodwyd

MARATHON LLUNDAIN

'Nôl ym mis Ebrill fe fu Mairwen Price, a Rhys a Siân Powys, yn rhedeg y Marathon yn Llundain. Fe lwyddodd y tri i gwblhau y ras yn ddianaf, a hynny mewn amseroedd digon parchus! Yn bwysicach, a gyda diolch i rai o ddarlennwyr y Dinesydd, fe lwyddodd y tri i godi dros bum mil a hanner o bunnoedd er budd Y Gymdeithas Awstistig Genedlaethol – yr elusen sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth i deuluoedd sy'n gofalu am blant ac oedolion sydd â phroblemau ar y sbectrwm awstistig.

Dyma rai o argraffiadau Rhys o'r ras ei hun ...

4'18" ar 18/4

Ar ddydd Sul, Ebrill 18, 2004, er i mi gydredeg â dros 30,000 o redwyr yn un o rasmus enwocaf y byd, trwy un o ddinasoedd mwyaf hanesyddol Ewrop, a phasio heibio i rai o adeiladau mwyaf adnabyddus Prydain, sŵn y ras fydda i'n ei gofio – a phan rois fy mhen ar y gobennydd yn hwyr ar y noson honno, sŵn y ras a'm suodd i gysgu.

Milltir 1, 2, 3 ...

Y synau dynnodd fi ar hyd y strydoedd. Roedd canolbwyntio ar fwydo'r clustiau yn pylu'r synhwyrâu eraill ac yn rhwystr dyn rhag meddwl am y gwres yn y gadwau. Roedd 'phat, phat, phat' y traed yn taro'r tarmac gwlyb yn gydymaith ffyddlon am dros bedair awr ac, wedi arfer rhedeg ar fy mhen fy hun, roedd cwmniaeth sŵn trainers y torfeydd yn gysur, yn guriad calon, yn cadw'r rhythm i'r caneuon yn fy mhen.

O ddechre'r ras roedd cerddoriaeth yn llenwi'r awyr. Carnifal chwe milltir yr awr! Canolbwyntio, cadw rhythm ... yna, yn ddarwybod bron, roedd curiad

oedd y rhain o enau Roy (a'i drwyn coch ffigwrol): 'Gellir gwneud lot pan fo gennych bobl ond heb arian, ond prin dim gellir ei wneud pan fo gyda chi arian ond dim pobl y tu cefn i chi'. Credaf fod presenoldeb a brwdfrydedd ein gwirfoddolion yn tanlinellu gwirionedd y syniad hwn.

Ffoniwch ni ar 02920 454416 ar ddydd Mawrth 3pm hyd 9pm a dydd Iau 10am hyd 4pm.

Dafydd Frayling

newydd i'r camau. O bum can llath byddai'r traed yn dilyn y trawiad, cannoedd o bennau'n bobian i'r bit - degau o ddawnsywyr diarwybod. Pedwar, tri, dau gan llath a'r gân yn cryfhau yn y glust. Jazz, reggae, rock and roll. Y sŵn yn cynyddu fesul cam. Cerddorion du dan gyfnas, yn mochel rhag y glaw. Bandiau pres dan doean plastig. Elvis tew ar ben bwrdd tafarn. Cybolfa gerddorol yn llonni'r gynulleidfa symudol, y llifeiriant lliwgar dan ddiferion. Ac wrth i'r nodau olaf gilio deuai sain newydd o'r pellter yn cyhoeddi "Ni sydd nesa! Ni sydd pia'r filltir hon!"

Milltir 10, 11, 12 ...

Dan bont ger y Blackwall Tunnel maen nhw'n bangio bongos am eu bywydau. Mae 'na gorau 'gospel' wrth gapeli, bandiau 'banghra' a'u rhythmau poeth, seiniau calypso a'u drymiau dur yn diaspedain ar hyd y strydoedd llwm. Yn y glaw saif pibydd unig yn codi calonnau'r Celtiaid dan gymylau trwm mis Ebrill. Ac, i'n hatgoffa ein bod yn y Brifddinas, band pres go iawn yn chwythu nerth esgyrn eu pennau dan dyrrau du Twr Llundain.

Milltir 16, 17, 18 ...

Mae 'na radios, mae 'na "road-shows". Cybolfa gyfarwydd y siartiau yn codi a chilio wrth i ni nesau a phellau o'r 'speakers' mawr du. A'r ffyliaid a'u headphones yn colli'r sioe i gyd!

Milltir 23, 24, 25 ...

Y tu ôl i'r miwsig mae miwsig y dorf. Chwibanu. Clapio. Gweiddi parhaol – a'r waedd garedicaf un. "C'mon Rhys. Looking good," a minnau'n mor falch fod fy enw'n glir ar flaen fy fest. 'Roedd y floedd yma'n fwyd -- yn faeth -- yn danwydd i'm tynnu dros y ganllath nesaf, trwy'r wal ac ar hyd y milltiroedd hiraf yn y byd.

"Ac wedi elwch ..."

Tawelwch llwyr wrth gasglu bag, crys T a medal. Does dim egni i siarad. Pawb mewn sioc, yn diolch am gael cerdded, stopio a sefyll yn llonydd, llonydd.

Doedd dim gorfoledd ar y diwedd yn deg. Diffodd fy oriawr ac edrych lawr – 4'18" ar 18/4. Arwydd falle fod y sialens wedi'i chyflawni – a bod fy nyddie fel rhedwr Marathon ar ben!

Rhys Powys.

YSGOL GYFUN PLASMAWR

Arolygiad: 24-28 Tachwedd 2003

Ymddiheurwn fel ysgol nad oes newyddion am yr ysgol wedi bod yn Y Dinesydd y flwyddyn hon. Mae hi wedi bod yn flwyddyn hynod o brysur gyda'r paratoad ar gyfer Arolygiad ESTYN yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r ysgol am wneud yn dda iawn yn yr arolwg yma.

Dyma a ddywed rhagarweiniad yr adroddiad am Ysgol Plasmawr; 'Mae hon yn ysgol dda iawn. Mae cryfderau amlwg yn y safonau a gyflawnir a'r addysgu yn y dosbarth. Arweinir yr ysgol yn dda iawn. Mae'r cymorth a chyfarwyddyd a ddarperir ar gyfer y disgyblion a'r myfyrwyr hefyd yn dda iawn. Mae'r ysgol yn gymuned wâr, ofalgar, deuluol a chynhwysol. Gyda ychydig eithriadau, mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn.'

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Teithiodd 150 o ddisgyblion a nifer o athrawon ar hyd y lonydd troellog i Ynys Môn lle cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Roedd nifer yn brysur yn cystadlu mewn cystadlaethau drama, llefaru, canu, dawnsio a gymnasteg. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol a wnaeth yn arbennig o dda yn ystod yr wythnos ac i bawb a gymerodd ran.:

Lowri Walton, bl 11 : 1af yn y gystadlaethau Dawnsio Gwerin Unigol i Ferched

15 – 25 oed. Cafodd Lowri ei dewis i gystadlu am Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru yn Theatr Gwynedd, Bangor.

Rhidian Newton Thomas, bl 7 : 3ydd yn y gystadlaethau Gymnasteg Unigol i Feghyn 12 – 15 oed.

Cân actol dan 15 oed : 2il

Detholiad o Ddrama Gerdd Gymreig 14 – 25 oed : 3ydd

Llongyfarchiadau hefyd i Siwan Rhys, bl 12 a ddaeth yn 2il yn y gystadlaethau Cyfansoddi Cerdd Dant dan 25 oed.



Bechgyn Rygbi Bl 7 a aeth ar daith i'r Gogledd

Taith yr Adran Hanes i Wlad Belg

Aeth disgyblion o flwyddyn 9 yr ysgol ar daith i Wlad Belg er mwyn ffeindio allan beth ddigwyddodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn gyntaf yr hyn a welsom oedd mynwent o'r enw Sanctiry Wood. Yno roedd bedd Hedd Wyn, y bardd enwog a fu farw yno cyn ennill y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw. Wedyn aethom i lawer o fynwentydd eraill fel 'Hill 62' a oedd yn arwain ymlaen at 'Maple Ave'. Ar ôl hynny aeth pob un ohonom i'r ffosydd. Cawsom gyfle i fynd yn y ffosydd a thrwy y twneli. Dyna oedd darn gorau'r trip yn fy marn i. Y diwrnod wedyn aethom i amgueddfeydd a oedd yn sôn tipyn mwy am y rhyfel. Wedyn roedd cyfle i fynd o amgylch y siopau er mwyn gwario ein harian cyn mynd adref ar y fferi o Calais. Roedd yn daith ddiddorol a ddangosodd i ni erchylltra'r rhyfel.

Rhys John, bl 9

Taith yr Adran Addysg Grefyddol i'r Eidal

Aeth disgyblion o wahanol flynyddoedd ar daith i'r Eidal dros wyliau'r Pasg. Yn gyntaf fe wnaethom ymweld â Llyn Garda. Roedd y llyn yn enfawr ac yn hyfryd, roedd yna llawer o lefydd i eistedd lawr a chael diod wrth edrych ar yr olygfa brydferth. Roedd Verona yn hollol wahanol gyda'r siopau ffasiwn i gyd – Gucci, Prada, Louis Vuitton ac ati, ond hefyd fe welsom falconi Juliet. Roedd yr awyrgylch yn wych. Yna teithiom i lawr i'r de tuag at Rufain lle'r oedd llawer o bethau anhygoel i'w gweld, fel y Pab yn y Fatican, y Colloseum a nenfwd Capel y Sistine gan Michelangelo

sy'n ffantastig! Ond fy hoff le i oedd Venice sydd fel darlun o lyfr plentyn bach. Yn sgwâr San Marc mae yna gerddoriaeth a rhosynnau ar werth a siopau ar strydoedd bach oddi ar y sgwâr. Lle hollol ramantus!

Siân Confrey, bl 8

Taith yr Adran Saesneg

Ar y degfed o Fehefin aeth hanner cant o ddisgyblion yr ysgol i weld un o ddramâu enwocaf Shakespeare sef 'Romeo and Juliet'. Perfformiwyd y ddrama yn Theatr y Globe yn Llundain. Mae y theatr yma wedi ei hadeiladu ar safle y theatr wreiddiol, lle'r oedd dramâu yn cael eu perfformio yn oes Shakespeare. Mae'r theatr yn wahanol iawn i'r rhai presennol oherwydd ei bod yn grwn ac yn awyr agored.

Roedd y grŵp yn mwynhau gweld yr actorion proffesiynol yn actio a dawnsio yn eu gwisgoedd diddorol ar lwyfan gwych. Roedd hefyd yn brofiad i'r disgyblion gerdded dros font y Mileniwm. Roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy.

Lleucu Devitt-Jones, bl 8

Llwyddiannau chwaraeon

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol sydd wedi gwneud yn arbennig o dda!

Carissa Turner, bl 10: Badminton dros Gymru dan 16 oed

Frances Austin, bl 8: Pencampwraig seiclo Cymru. 3ydd ym Mhrydain.

Gwennan Harries, bl 11: Pêl-droed dros Gymru dan 14,16,18

Aimee Hill, bl 8 : Pêl-droed dros Gymru dan 14.

Natasha Paton, bl 7 : cyntaf mewn cystadlaethau Karate dros Gymru dan 16.



YSGOL PLASMAWR

Gareth Sutcliffe, bl 9 : cynrychioli Ysgolion Caerdydd yn y Pentathlon.
Elliot Wilson, bl 9 : ennill 400M Ysgolion Caerdydd.

Carly Latcham, bl 7 : Formula 6 Go-Karting. 2il ym Mhrydain.

Sara Thomas, bl 8 : ennill Naid Hir Dan Do Ysgolion Cymru

Dafydd Jenkins, bl 9 : Ysgolion De Cymru – Trawsgwlad.

Owain Dolan-Grey, bl 8 ; chwarae hoci dros Gymru

Daniel Moss , bl 7 : saethu dros Gymru.

Tîm rygbi bechgyn bl 7: Aethant ar daith i Ogledd Cymru ac ennill pob gêm. Byddant yn mynd i Rownd Gynderfynol cystadleuaeth Ysgolion Caerdydd.

Tîm rygbi bechgyn bl 7 : Ail yn Rownd Derfynol 7 bob ochr Ysgolion Caerdydd.

Tîm Merched bl 8 / 10 : Ennill yng nghystadleuaeth Rygbi Cyffwrdd Ysgolion Caerdydd . Byddant yn y Rownd Derfynol ar y 1af o Orffennaf yn Stadiwm y Mileniwm.

Rygbi : Tîm Rhanbarth Caerdydd: Luke Crocker, bl9. James Payne, bl 7

Gymnasteg y Sir

1af : Rhydian Thomas , bl 7

2il : Jack Withey, bl 8

3ydd : Ryan Nelson, bl 8

1af : Amy Harvey, bl 7

2il : Jessica Rosier, bl 7

Bl 10 : Chwaraeodd y tîm pêl-droed merched yn rownd derfynol yr Urdd.

Taith i Mecsico a Sbaen

Llongyfarchiadau i Rebecca Jarman, bl 12, ar ennill lle ar daith i Mecsico a Sbaen gyda thaith *la Ruta Quetzal*. Taith flynyddol yw hon sydd yn gyfle i bobl ifanc o wledydd Sbaeneg eu hiaith a gwledydd eraill i adnabod hanes, diwylliant a daearyddiaeth eu byd yn well. Rebecca yw'r unig berson o Brydain sydd yn mynd ar y daith, a'r Gymraes gyntaf! Fe fydd hi ym Mecsico dros fis Mehefin ac yn Sbaen yng Ngorffennaf. Mae Rebecca'n astudio Sbaeneg, Ffrangeg a Saesneg ar gyfer Lefel A.

Ysgol Melin Gruffydd yn 25 oed

Hanner can mlynedd yn ôl i eleni fe agorodd Ysgol Gynradd yr Eglwys Wen ar safle yn Erw Las, Yr Eglwys Newydd ac yna, pum mlynedd ar hugain yn ôl i eleni fe agorodd Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ar yr un safle.

Er mwyn dathlu'r achlysuron pwysig yma yn hanes y ddwy ysgol, ar 21 Mehefin fe ollyngwyd chwe chant o falwnau'n rhydd mewn seremoni fach ar gae'r ddwy ysgol gan Mair Robbins, prifathrawes Ysgol Melin Gruffydd a Peter Morgan, prifathro Ysgol yr Eglwys Wen o flaen holl ddisgyblion y ddwy ysgol.

Llongyfarchiadau i'r ddwy ysgol sydd wedi byw'n gytun ar yr un safle ers dyfodiad Ysgol Melin Gruffydd bum mlynedd ar hugain yn ôl.

Ysgol y Berllan Deg

Rydym wedi setlo i mewn i'r adeilad newydd ac mae pawb yn adnabod ei ffordd o gwmpas, o'r diwedd! Rydym ni wedi cychwyn ein gyrfa yn yr adeilad newydd gyda llwyddiant, gan lwyddo yn y cam cyntaf o fod yn ysgol iach. Bydd y gwobrwyo yn cael gynnal yn Neuadd y Sir ar Orffennaf y cyntaf.

Bu i 6 o ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 fynd i Aberystwyth i gynrychioli'r ysgol a Chaerdydd yng nghystadleuaeth y cwis llyfrau. Roedd Ella de'kretser Armstrong, David Fathers, Nathan Clements, Jac Mortimer, Lydia Hurley Tekisha Wilson a Miss Arch wedi gweithio'n galed am wythnosau cyn y gystadleuaeth. Bu iddynt berfformio'n wych ac uchelgais y diwrnod oedd cyfarfod T.Llew Jones!

Ar brynhawn dydd Mawrth, Mehefin 29ain byddwn yn cynnal ein mabolgampau cyntaf, sy'n cael ei noddi gan westy y Moat. Edrychir ymlaen i'r diwrnod o gystadlu gan y disgyblion a'r athrawon.

Cynllun Gofal Haf Menter Caerdydd

**20^{ed} o Orffennaf
- 13^{eg} o Awst**

8.30 y.b. - 5.30 y.h.

Lleoliadau:

Ysgol Treganna

Ysgol Berllan Deg

GWIBDAITH BOB DYDD MERCHER

21/7/04 Sain Ffagan 28/7/04 Cosmeston

4/8/04 Fferm Cefn Mably 11/8/04 Alphabet Zoo

Am ffurflen gais neu mwy o fanylion cysylltwch:

029 20 565658

www.mentercaerdydd.org

EGLWYS BETHEL, RHIWBINA

Cyflwynwyd tystysgrifau a bathodynau i wyth o bobol ifanc yr eglwys a fu'n casglu at y Genhadaeth Dramor. Roedd cyfanswm eu casgliad yn £160. Hefyd fe wnaed casgliad yn yr Ysgol Sul.

Cydymdeimlir â Mr Alf Evans, Llanishen, yn ei brofedigaeth. Bu ei chwaer farw yn ddiweddar ym Machynlleth.

Braf yw gweld Mrs Meirwen Davies yn ôl yn y cwrdd wedi iddi hi gael triniaeth yn Ysbyty Llandochoau.

Yn priodi cyn bo hir?
Wedi trefnu'r adloniant?
Naddo?

Felly,

Gwasanaethau 007
amdani !

DISGO DWYIEITHOG
ASIANT TWMPATH
SUSTEM SAIN I AREITHIAU
RIG GOLEUO I GRŴPIAU
BYW

Cysylltwch â Ceri ar
07774 816209 neu
029 20621634
ceri33@btopenworld.com
Ar gael dros Gymru benbaladr
a thu hwnt

CYFOETH CYMRAEG GWENT

Cawn gipolwg ar gyfoeth bywyd Cymraeg Gwent dros y canrifoedd mewn cyfres o ddarlithiau gan aelodau staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd a draddodir yn y Babell Lân yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd:

Dydd Llun, 2 Awst, 11:00 a.m.

Archaeoleg Ieithyddol Gwent

Darlithydd: Yr Athro Peter Wynn Thomas

Dros y canrifoedd bu Gwent yn gartref i siaradwyr sawl iaith gan gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg. Bwrw golwg ar waddol y gwahanol haenau ieithyddol y bydd y ddarlith hon, a cheisio dehongli rhai o'r patrymau sy'n codi.

Dydd Mawrth, 3 Awst, 11:00 a.m.

Gwent a'r Mabinogion

Darlithydd: Yr Athro Sioned Davies
Caerllion, Gwent Is-Coed, Llyn Lliwan, Aber Gwy – Gwent yw lleoliad sawl digwyddiad cyffrous yn y Mabinogion. Cawn olwg yn y ddarlith hon ar y cysylltiad rhwng yr ardal a'r chwedlau canoloesol, ynghyd ag ymdrechion arbennig Cymreigyddion y Fenni i ddiogelu a lledaenu'r chwedlau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Dydd Iau, 5 Awst, 11:00 a.m.

'Rhoi 'Ngwent Holl Gymru': Y Cywyddwyr yn y De-Ddwyrain

Darlithydd: Dr Dylan Foster Evans
Golwg ar Went yn oes y Cywyddwyr. Dyma gyfnod pan nad oedd gwell nawdd na gwell barddoniaeth i'w cael yn unrhyw ran o Gymru, a phan oedd beirdd o bob rhan o'r wlad yn heidio i'r de-ddwyrain.

Dydd Gwener, 6 Awst, 11:00 a.m.

O Ben-y-fâl i'r Paith: John Owen y Fenni ac Eluned Morgan, Llenor y Wladfa

Darlithydd: Dr E. Wyn James
Golwg ar gyfraniad yr argraffydd a'r arweinydd eisteddfodau, John Owen, un

Deinameit wythnos yr Eisteddfod

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, bydd Llwyfan Gogledd Cymru yn perfformio 'Deinameit' gan Mari Emlyn a Gwion Hallam yn Theatr Sherman. Bydd y perfformiadau nos Fercher, Iau a Gwener, 4-6 Awst, am 7.30 pm. Tocynnau: 029-2064-6900.

Ellis Wynne, Sbaen a'r Eisteddfod

Mae un o glasuron mawr y Gymraeg, *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg* gan Ellis Wynne, yn drwm dan ddylanwad yr awdur Sbaeneg, Don Quevedo. Ddydd Mawrth, 3 Awst, am 12.00, ym Mhabell y Cymdeithasau ar faes Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd, traddodir darlith gan yr Athro Gareth Alban Davies (cyn Athro Sbaeneg Prifysgol Leeds) ar y testun, 'Quevedo ac Ellis Wynne'.

Cadeirydd y cyfarfod fydd Dr John Hughes, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Casnewydd. Seiciatrydd yw Dr John Hughes, a raddiodd mewn Sbaeneg o Brifysgol Caerdydd ar ôl iddo ymddeol. Ef oedd y cyfieithydd ar gyfer taith a wnaeth nifer o gyfeillion o gylch Caerdydd i ymweld â chartref Quevedo yn ne Sbaen yn ddiweddar, taith a drefnwyd gan Hywel a Gwyneth Jeffreys.

o gymeriadau lliwgar bywyd Cymraeg Gwent yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Rhoddir sylw arbennig i gynnyrch ei wasg a'i berthynas â Wil Ifan, teulu'r Cilie ac Eluned Morgan.

GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwylwr eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

Ty Gawlo Isaf, Cefn Mably. CF3 6LP

07974 80 30 89

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddarau systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch



TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

PRISIAU RHESYMOL

Ffoniwch

Caerwyn Davies

ar **029 20868208**

neu **07967 558664**



www.mentercaerdydd.org
029 20565658

Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd

Fe fydd pabell gan Fenter Caerdydd ym Mharc Tredegar ddechrau fis Awst pan fydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â Chasnewydd. Os ydych yn mynd am dro i'r Maes cofiwch alw mewn i'n gweld am banded!

Bysiau'r Fenter i Gasnewydd

Yn ogystal â stonin ar y Maes, rydym mewn trafodaethau ar hyn o bryd i gynnig gwasanaeth bws o Gaerdydd i Gasnewydd ar gyfer nifer o'r cyngherddau, gigs ayb

Y gobaith yw y byddwn yn medru cynnig pecyn rhesymol a fydd yn cynnwys bws i ddrws y digwyddiad ac yn ôl a thocyn mynediad. Unwaith fydd yr union gyngherddau wedi'u cadarnhau, byddwn yn hysbysebu'r bysiau ar bosteri ar hyd a lled y ddinas yn ogystal â'n gwefan – felly cadwch lygad ar agor!

Parti Clybiau Diddordeb Plant

Fe fydd y clybiau diddordeb wythnosol yn dod i ben Nos Iau, Gorffennaf y 15fed. I orffen y tymor mewn steil, fe fydd parti'n cael ei gynnal yng Nghanolfan yr Urdd i ddatlu diwedd y tymor! Cyfle i'r plant gymdeithasu, dawnsio a mwynhau, ac efallai y bydd ambell i sypreis?!

Ola Amigos!

Mae Cwrs Sbaeneg Byr y Fenter eisoes wedi dechrau. Mae criw da o ddysgwyr brwd yn cyfarfod bob nos Fawrth i ddysgu'r iaith! Gobeithio y byddwn yn medru cynnig cyrsiau tebyg yn y dyfodol a hyd yn oed taith i ymarfer ein Sbaeneg go iawn efallai?

Cynlluniau Gofal Haf

Fe fydd 2 Gynllun Gofal yn rhedeg am 4 wythnos yn ystod Gwyliau'r Haf eleni – Ysgol Treganna ac Ysgol y Berllan Deg. Yn ogystal â'r



Clwb Celf Menter Caerdydd

gweithgareddau arferol - castell neidio, celf a chreffft, dawnsio, coginio, drama, chwaraeon, cerddoriaeth ac ati, fe fydd gwibdeithiau i Sain Ffagan, Alphabet Zoo, Cosmeston a'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd. Nawr yw'r amser i gofrestru, felly cysylltwch â ni yn y swyddfa am ffurflen.

Taith Haf Radio Cymru ac S4C yn ymweld â Chaerdydd

Fe fydd Sain Ffagan yn croesawu Taith Haf flynyddol Radio Cymru ac S4C Ddydd Sadwrn, Awst yr 21ain. Mae Radio Cymru ac S4C yn ymuno am y tro cyntaf ar daith haf felly mae'n argoeli'i fod yn ddiwrnod ardderchog. Fe fydd y Fenter yn ymuno â nhw am y diwrnod felly dewch draw i'n gweld ag ymuno yn yr hwyl!

Cynghrair Haf 'Touch' Caerdydd

Daeth y gemau 'Touch' i ben ddiwedd Mehefin â'r merched wedi mwynhau y profiad yn fawr! Er nad yw'r cwpan ar wal y Fenter eleni, fe fydd y tîm yn ymarfer yn galed nawr dros fisoedd y gaeaf a chystadlu i godi'r tlws y flwyddyn nesaf?!!!

Clwb Pêl-rwyd Menter Caerdydd

Rydym yn ystyried dechrau Clwb pêl-rwyd i Ferched fis Medi eleni. Fe fyddai'r Clwb yn cyfarfod bob Nos Sul am awr. Os ydych felly am gwrdd â chriw o ferched i gymdeithasu a chadw'n ffit neu i fynegi diddordeb cysylltwch ag angharad@mentercaerdydd.org

Digwyddiadau Cymraeg yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan

MYNEDIAD AM DDIM!

Gorffennaf 21, 17 a 23 Awst Ar drywydd y Tuduriaid

Dewch ar daith o gwmpas yr Amgueddfa i ddysgu rhagor am y Tuduriaid.

2-3pm Taith i'r Teulu (yn Gymraeg). Yn cwrdd y tu allan i Ffermdy Kennixton.

23 Gorffennaf, 3pm Cegin Castell Sain Ffagan ar ei Newydd Wedd

Dewch i ddysgu mwy am newid ac ail-ddehongli cegin Fictoriaidd Castell Sain Ffagan. *Taith yn Gymraeg*. Yn rhad ac am ddim, ond rhaid llogi lle ymlaen llaw am fod nifer y lleoedd yn gyfyngedig. **Ffoniwch 029 2057 3424 i archebu lle.**

30 Gorffennaf, Capel Penrhiw, 3.30pm Llên gwerin ar waith!

Ymunwch â ni i fwrw golwg ar archi llên gwerin yr Amgueddfa Werin ac i glywed am y gwaith sy'n cael ei wneud i gadw ein treftadaeth at y dyfodol. *Digwyddiad cyfrwng-Cymraeg*. Yn rhad ac am ddim, ond rhaid llogi lle ymlaen llaw am fod nifer y lleoedd yn gyfyngedig. **Ffoniwch 029 2057 3424 i archebu lle.**

23 Awst, 2pm Lleisiau o'r gorffennol: Archifau sain yr Amgueddfa Werin

Dewch i ddysgu rhagor am y casgliad difyr hwn. *Sgwrs cyfrwng-Cymraeg*. Yn rhad ac am ddim, ond rhaid llogi lle ymlaen llaw am fod nifer y lleoedd yn gyfyngedig. **Ffoniwch 029 2057 3424 i archebu lle.**

27 Awst, 3pm Deall Adeiladau: edrych yn agosach ar adeiladau'r 18fed ganrif

Mwynhewch daith o gwmpas yr adeiladau sydd wedi cael eu hailgodi ar y safle, gan edrych ar eu strwythur a'r gwahanol ddeunyddiau adeiladau. *Taith yn Gymraeg*. Rhaid llogi lle ymlaen llaw am fod nifer y lleoedd yn gyfyngedig. **Ffoniwch 029 2057 3424 i archebu lle.**

Newyddion o'r Eglwysi

Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg

Bu'n fraint fawr i ni fel eglwys gynnal Cyfarfod Bedydd adeg y Pasg yng Nghanolfan Gristnogol Minster er mwyn bedyddio Bethan Haf Davies, Llion Marc Evans a Rhidian Marc Evans. Mae Bethan yn dod o Langefni yn wreiddiol ond y mae hi erbyn hyn yn briod ag Iwan, wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd, ac wrthi'n hyfforddi i fod yn athrawes ysgol gynradd. Mae Llion a Rhidian yn frodyr sydd wedi eu magu yn yr eglwys. Mae Llion yn fyfyrwr israddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth a Rhidian ym Mlwyddyn 11 yn Ysgol Plasmawr. Hyfryd oedd clywed eu profiadau gwahanol o sut y daethant i ffydd bersonol yn Iesu Grist. Er bod y tri wedi eu magu ar aelwydydd Cristnogol roedd y tri hefyd wedi dod i sylweddoli nad digon oedd pwysu ar eu magwraeth a ffydd eu rhieni. Dyna oedd neges ganolog y noson. Roedd hi'n fendith aruthrol i weld tri o bobl ifanc yn awyddus i gael eu bedyddio ac yn tystio i'r gwaith iachusol mae Duw wedi ei wneud yn eu bywydau.

Hoffwn estyn gydymdeimlad i Mrs Beryl Williams ar golli ei mam. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â chi fel teulu, ac yn enwedig gyda Siôn a Nerys ar golli mam-gu annwyl.

Hoffwn yn ogystal estyn cydymdeimlad cynnes i Mr Gwyn Treharne ar golli ei wraig. Bu'r ddau yn briod am dros drigain o flynyddoedd ac er iddynt fyw yn Llanelli am y rhan fwyaf o'r blynyddoedd hynny symudasant i Gaerdydd rai blynyddoedd yn ôl er mwyn bod yn agos at Mrs Elisabeth Williams a'r teulu. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth.

Croeso mawr i Gruffydd, mab newydd Hywel a Bethan George, a Gwenno Fflur, merch newydd Steve a Lois Bowen.

Gwasnaethau ar y Sul am 10.00 a 6.00 yn Rhymney St., Cathays.

Salem, Treganna

Bedydd

Cafodd Iwan, ail fab Nia a Mark Owen ei fedyddio yn Salem ddechrau'r mis. Llongyfarchiadau iddynt, ac rydym yn dymuno'n dda iddynt fel teulu. Roedd Iwan wrth ei fodd yn mreichiaw Evan!

CIS

Cawsom noson hynod o lwyddiannus yn y Bae, a hefyd cawsom noson o flas gwin ganol y mis, yn ôl ein harferiad blynyddol bellach. Cawsom ein haddysgu'n helaeth ar win yr Eidal - rhai'n fwy melfedaidd na'i gilydd. Cafwyd llawer iawn o hwyl - a phawb yn sobr ar ddiwedd y noson. (!)

'Yn Debyg iawn i Ti a Fi' gan Meic Povey

Trefnodd Evan i griw ohonom fynd i gefnogi Siw Hughes, wrth iddi gymryd rhan un o'r prif gymeriadau yn nrama gyntaf Theatr Genedlaethol Cymru.

Y cynhyrchydd oedd Cefin Roberts, ac roeddem i gyd wedi cael mwynhad aruthrol. Roedd yn ddrama gref a phwerus, ac yn gynhyrchiad cwbl gaboledig. Roeddem yn teimlo bod yr actorion wedi taflu eu hunain gorff ac enaid i'r perfformiad. Rydym yn llongyfarch Siw yn fawr ar ei pherfformiad, ac yn gobeithio y cawn gyfle eto i'w gweld yn perfformio ar lwyfan.

Clwb y Bobl Ifanc

Cawsom noson hwyliog ac roedd y lle dan ei sang wrth i ni fwynhau fideo a sglods. Does dim yn well!

Criced

Hyd yn hyn, rydym wedi chwarae dwy gêm - wedi ennill un a cholli un! Cawsom noson hwyliog yng nghwmni staff Amgueddfa Werin Cymru a hefyd yng nghwmni aelodau'r Crwys. Roedd yn wych cael cyfle i gymdeithasu, ac yn ffordd dda o ddod â Chymry'r ddinas at ei gilydd! Edrychwn ymlaen at sawl gem arall sydd wedi eu trefnu yn fuan.

Tabernacl, Yr Ais

Ailagor y capel

Ail-agorwyd y capel yn dilyn y tân ar fore Sul Mehefin 20fed. Roedd y capel yn llawn a phawb yn falch o weld yr adeilad wedi'i adfer i'w gyflwr gwreiddiol - hyd yn oed yn well efallai gyda'r paent a'r carpedi newydd. Beth well felly i goroni'r achlysur na chael chwech o bobl ifanc y capel yn cyflwyno eu hunain i gael eu bedyddio. Y Gweinidog Denzil John, gyda chymorth Y Parch Milton Jenkins, oedd yng ngofal yr ordinhad o fedydd. Yn sicr bydd Marged Jones, Alys Reed, Jones, Preece Rhodri Thomas a Rhys Thomas yn cofio'r bedydd hwn am weddill eu hoes.

Genedigaethau.

Llongyfarchiadau i Martin ac Elena Rhisiart ar enedigaeth Gwion Dafydd, ŵyr cyntaf Delun a John Callow. Croeso hefyd i Molly Haf, merch fach i Nia McVay.

Llongyfarchiadau i Guto Thomas ar ei ddyweddiad gyda Ruth Wisby, a Lisa Thomas ar ei phenodiad i Ysgol Gynradd Llantrisant.

Cymorth Cristnogol.

Diolch i'r criw bach a fu'n gyfrifol am gasglu ar Stâd Lady Mary; gwirededwyd £534.30. Hefyd diolch i bawb a fu'n gweithio yn Ffair Haf Cymorth Cristnogol yn festri'r capel. Gwirededwyd £215 o ymdrechion y Tabernacl ac fe ddisgwylir cyfanswm terfynol sylweddol.

Cefnogi'r eglwysi yn Haapsalu a Maseru.

Yn dilyn ymweliad chwech o'r aelodau â Haapsalu cyn y Pasg, penderfynwyd chwilio am fodd i ariannu prosiectau a fydd yn hyrwyddo'r gefeillio. Eisoes cafwyd sawl cyfarfod ar aelwydydd aelodau i godi arian ac fe drefnwyd stondin i werthu nwyddau yn ystod Cymanfa Ddwyrain Morgannwg. Mae Delun Callow yn gwahodd aelodau i gynnig rysetiau i'w cyhoeddi mewn llyfryn er mwyn codi arian i'r gronfa hon.

Ebeneser, Heol Siarl

Bedydd

Cynhaliwyd bedydd Eiriana Glain merch Lona a Ceri Campbell. Pontprennau ar fore Sul 2 Mai. Pob bendith iddynt fel teulu.

Yr Achos

Cynhaliwyd llu o weithgareddau er mwyn codi arian tuag ar yr achos. Cafwyd cyngerdd gwych gan Gôr Caerdydd wedi ei drefnu gan y Gymdeithas, Bore Coffi gan Gymdeithas y Chwiorydd, cinio 3 chwrs yn y capel gan y chwiorydd a'r diaconiaid a bore coffi yng nghartref Mair ac Idwal Hughes.

Cymorth Cristnogol

Ar ddiwedd wythnos Cymorth Cristnogol cynhaliwyd oedfa arbennig gan ieuencid Ebeneser ar fore Sul Mai 16eg. Cymerwyd rhan gan Dafydd Evans, Mari Thomas, Lea Dafydd, Lisa Mair Williams, Bethan Semmens, Siân Manning, Ioan Evans, Mirain Dayfdd, Sam Thomas, Meilyr Hughes, Steffan Dafydd a Tecwyn Dafydd.

Sul y Pasg

Ar fore dydd Sul y Pasg cynhaliwyd oedfa deuluol yn y bore. Yn dilyn y gwasanaeth cynhaliwyd helpa wyau i'r plant wedi ei drefnu gan Arwel ac Eleri Peleg Williams.

Hwyl Hwyr

Daeth tymor llwyddiannus Clwb Hwyl Hwyr i ben gyda noson ffilm yn y capel. Yn ystod y flwyddyn dyblodd nifer y plant oedd yn mynychu. Diolch i bawb a gynorthwyodd sef, Gill Lewis, Vikki Tudur, Eilir Jones, John Hayes ac yn arbennig Rachel Jones. Diolch hefyd i ysgol Plas Mawr am y croeso cynnes a gawsom. Edrychwn ymlaen eisoes ar gyfer y tymor nesaf.

Y Digartref

Pob prynhawn dydd Mercher am gyfnod o 3 mis cynhaliwyd Cwrs Alffa yn y festri Ebeneser ar gyfer y digartref. Bydd cwrs arall yn cychwyn ar ôl yr haf.

Eglwys y Crwys

Yn rhod y tymhorau, dyma'r amser pan fydd ein heglwysi'n paratoi eu gwahanol raglenni ar gyfer gweithgareddau'r Hydref a'r gaeaf. Eisoes fe gyfarfu athrawon a rhieni'r Ysgol Sul i drefnu patrwm y gwersi, yr ymweliadau a'r digwyddiadau achlysurol o fewn calendr yr eglwys. Penderfynwyd ar gynllun arolygu cyfnodol o fisoedd, yn hytrach nag arolygiaeth flynyddol. Rhoddwyd cefnogaeth i raglen sydd yn cynnwys taith antur yn y Forest of Dean ym mis Gorffennaf a thaith gerdded deuluol ar fore Sul ym mis Hydref gyda gwasanaeth byr yn yr awyr agored. Penderfynwyd hefyd i gefnogi cynllun chwaraeon Cyngor Ysgolion Sul Cymru yn ogystal ag ymweliad tridiau â Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog.

Mae'r Gymdeithas Ddrama ar y cyd gydag Adran Ddrama yr Eisteddfod Genedlaethol yn bwriadu llwyfannu y ddrama ddwy act 'Yr Aflwydd' yn ystod mis Medi. Cyfieithiad George Owen o'r ddrama Saesneg 'Nil by Mouth' gan John Chapman yw hon ac fe'i gwelir gyntaf ar faes ein Gŵyl Genedlaethol yng Nghasnewydd.

Erbyn i chi ddarllen yr adroddiad yma bydd Clwb Teithio '91 wedi dychwelyd o'i gwyliau deg diwrnod yn Ffrainc. Mae Aled Evans eisoes wedi trefnu y daith nesaf ar gyfer mis Hydref. Bydd y daith bum niwrnod yma yn mynd i Northumbria yng ngogledd-ddwyrain Lloegr. Os dymunwch ymuno â'r daith hon cysylltwch ag Aled.

Mae Iestyn Shapey wedi derbyn yr her i dreulio peth amser yn ystod yr haf eleni mewn pentrefi penodedig yn Zambia. Gwaith gwirfoddol yw hwn ac fe'i cefnogir gan yr Eglwys a'r Henaduriaeth. Bydd Iestyn, sy'n fyfyrwr yn Ysgol Feddygol Birmingham, yn gweithio ar broiectau cynnal iechyd yn y gymuned. Dymunwn yn dda iddo yn y gwaith gwerthfawr hwn.

Cawn ein hatgoffa yn fynych y dyddiau yma fod y flwyddyn hon a'r nesaf yn ganmlwyddiant Diwygiad 04-05. Yn ystod yr Hydref bydd dau ddigwyddiad yn nodi'r garreg filltir yma yn hanes ein cenedl. Mae ein gweinidog wedi trefnu encil undydd yn Nhrefeca ar Ddydd Iau 23 Medi i gofnodi ac i fyfyrto ar ymchwydd yr ysbryd oedd ar droed yn y ganrif ddiwethaf. Bydd y rhaglen yn cynnwys dau gyflwyniad llafar gan yr Athro J Gwynfor Jones a Rhidian Griffiths. Ceir cyfle hefyd i edrych ar

Minnie Street

Bu dwy briodas ym Minnie Street dros yr wythnosau diwethaf. Diwedd Mai priodwyd dau o'n haelodau, **Carwyn Fowler** a **Kathryn Jones**, a thair wythnos yn ddiweddarach, priodwyd aelod arall, **Huw Harries** a **Kristen Flood**. Dymunwn bob bendith i'r ddau bâr ifanc yma.

Mis o deithio fu mis Mehefin i nifer o'r aelodau. Ddydd Sadwrn, Mehefin 12, aeth llond bws (a rhai ychwanegol mewn ceir) i Stratford i gael mwynhau a gwerthfawrogi perfformiad y *Royal Shakespeare Company* o *Romeo and Juliet* gyda Matthew Rhys yn y brif ran. Cafwyd diwrnod arbennig – tywydd braf, cwmni hwyliog a diolch arbennig i Matthew am ei hynawsedd llon wrth i bawb ymgasglu ger y "stage door" i'w gyfarch ac ysgwyd llaw!

Wythnos yn ddiweddarach a Phen-y-groes yng Nghwm Gwendraeth oedd y gyrchfan i nifer o'r aelodau. Cyfarfodydd Blynnyddol Undeb yr Annibynwyr oedd yr atyniad y tro yma ac yn arbennig felly yr oedfa brynhawn Sadwrn pan fu i un o'n haelodau, Hefin Jones, dderbyn Beibl y Llywydd a thraddodi ei anerchiad, "Yng Ngolau'r Mynydd", ar ddechrau tymor ei lywyddiaeth.

Gyda chynhyrchiad y Cwmni Drama wedi llwyddo i fynd ymlaen drwy'r rhagbrofion i'r Eisteddfod Genedlaethol, cafwyd cyfle nos Fawrth, Mehefin 15 i fwynhau perfformiad o gyfieithiad Gwenda Morgan o ddrama Tom Stoppard, "Heddwch Gwahanol". Diolch i gyfeillion y Crwys am "fenthyg" y Theatr ar gyfer y perfformiad (a nifer o ymarferion). Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at y cyflwyniad yn Theatr y Congress, Cwmbran, nos Fawrth yr Eisteddfod a dymunwn yn dda i'r criw i gyd.

fideo cyfoes o gyffro tebyg mewn cyfnod mwy diweddar yng nghyd â mawl ar gân a fydd yn gynnwys rhai o emynau y diwygiad. Dywedir wrthym weithiau fod pob cyfnod yn cynhyrchu ei swm ei hun. Hynny a gawn mewn Cymaifa Ganu a drefnwyd gan Bwyllgor Mawl yr Henaduriaeth pryd yr atgynhyrchir eto swm emynau mawl ein cyndadau ganrif yn ôl. Trefnwyd y digwyddiad hwn ar gyfer brynhawn Sul 7 Tachwedd am 2.30. Croeso cynnes i bawb i Eglwys y Crwys.

MARWOLAETHAU

Cydymdeimlo â

Dafydd Tudor a'r teulu oll ar golli ei dad, y Parch John Tudor yn Ysbyty Llanidloes ar 10 Mehefin. Bu'r angladd yng Nghapel Heol China, Llanidloes ar 15 Mehefin ac wedi hynny ym Mynwent Fforddilas.

Cydymdeimlo â

Gwenan Richards, Radur, a'i theulu ar golli ei mam, Margaret Fflorens Roberts yn 96 oed yng Nghartref Nyrsio Y Cwrt, Sain Ffagan ar 18 Mehefin. Bu'r angladd yng Nghapel y Crwys ar 25 Mehefin ac wedi hynny yn Amlogfa Bryndrain.

Cydymdeimlo â

theulu'r diweddar Barch Cyril G Williams, yr Athro Emeritus a fu farw wedi cystudd hir ar 3 Mai. Bu'r angladd yn hollol breifat i'r teulu yn unig yn Amlogfa Llanelli ond cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i ddiolch am ei fywyd yng Nghapel y Priordy, Caerfyrddin ar 7 Mehefin.

Cydymdeimlo â

theulu'r diweddar Mercia Rowlands, Y Barri a fu farw yng Nghartref College Fields, Y Barri ar 7 Mehefin. Bu'r angladd yng Nghapel Tabernacl Y Barri ar 12 Mehefin ac wedi hynny ym Mynwent Gellimanwydd, Rhydaman.

Cydymdeimlo â

theulu'r diweddar Barchedig Elfed Jones a fu farw ar 29 Mai yn Leighton Buzzard, Lloegr, yn 92 oed. Bu'n weinidog ar Gapel Beulah, Rhiwbina rhwng 1941 a 1946.

Marw Cyn Swyddog Ieuentid Dinas Caerdydd

Bu farw Don Richards Cyn Swyddog Ieuentid Dinas Caerdydd yn 95 oed yn Abergele ar 19 Mehefin. Bu'r angladd yn Amlogfa Bae Colwyn ar 29 Mehefin. Er na fedrai'r Gymraeg yn rhugl oedd yn Gymro i'r carn. Tra 'roedd yn Swyddog Ieuentid yng Nghaerdydd efe a dynnodd sylw'r Urdd at y ffaith fod Ysgoldy Capel y Methodistiaid yn Heol Conwy, Treganna ar werth a byddai'r lle'n addas iawn i'w throï'n Ganolfan newydd i blant ac ieuentid

DIGWYDDIADAU'R HAF YN NEUADD DEWI SANT

Mae digwyddiadau diwedd yr haf yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd yn cynnwys yr enwau sydd ar y brig ym mydoedd cerddoriaeth, comedi, dawnns a mwy i roi i chi adloniant fydd yn frith o sêr.

Daw Proms Cymru Caerdydd 2004 â ymddangosiad cyntaf y Fonesig Kiri Te Kanawa yn y tymor poblogaidd yma o gyngherddau'r haf. Mae Miss Te Kanawa yn perfformio ar 20 o Orffennaf, ac ymhlith uchelfannau eraill y tymor mae'r ymweliad cyntaf gan gerddorfa ryngwladol â Cherddorfa Ffilharmonig Stuttgart yn perfformio'r Prom Mawr Rhyngwladol (15 o Orffennaf) a'r Prom Rhamantaidd Rhyngwladol (16 o Orffennaf).

Ymhlith cyngherddau eraill, dan faton arweinydd a Chyfarwyddwr Artistig Proms Cymru Caerdydd Owain Arwel Hughes OBE mae'r Prom Mawreddog (17 o Orffennaf) gyda'r bariton Jeremy Huw Williams ac Aled Jones a chorau'n llu yn ymuno â'r Royal Liverpool Philharmonic Orchestra.

Daw'r Prom Arwrol (22 o Orffennaf) â phump o gorau Cymru ynghyd, hefyd y soprano Helen Field a'r mezzo-soprano Susan Bickley gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ar gyfer perfformiad o Symffoni Rhif 2 (Resurrection) Mahler.

yr Urdd yn y ddinas. Prynwyd y lle gan yr Urdd yn 1967 a bu'n Ganolfan am 36 mlynedd o 1968 hyd at agoriad y Ganolfan newydd a fydd yn rhan o Ganolfan Mileniwm Cymru yn y Bae ym mis Tachwedd y flwyddyn yma.

Ar 23 o Orffennaf bydd y Prom Stodin Cerddorfaol yn rhoi llwyfan i Emma Johnson ar y clarinét gyda'r Royal Philharmonic Orchestra, ac mae'r un gerddorfa'n perfformio Noson Olaf Proms Cymru ar 24 o Orffennaf gyda'r delynores Catrin Finch.

Yn ogystal, bydd yna dri Prom Awr Ginio (16, 22, 23 o Orffennaf), y cyngerdd bythol-boblogaidd Prom y Plant (17 o Orffennaf) gyda'r artist gwadd arbennig Brian Blessed, y Prom Tidli Prom cyntaf ar gyfer plant dan 5 oed (24 o Orffennaf) a dychwelyd y Prom Jazz gyda Guy Barker ac artistiaid gwadd arbennig gan gynnwys Claire Martin (18 o Orffennaf) a Prom Cerddoriaeth y Byd gydag Orchestra Baobab (19 o Orffennaf).

Bydd yr haf eleni'n gweld y Neuadd ar ei gorau sinematig gyda Thymor Richard Burton i nodi ugainmlwyddiant ei farw, gan gynnwys dangos The Night of the Iguana (28 o Orffennaf), Cleopatra (2 o Awst) a The Spy Who Came In From The Cold (3 o Awst).

Gwêl mis Awst hefyd ddychwelyd Cerddorfa Genedlaethol Ieuentid Cymru mewn cyngerdd ar 8 o Awst gyda rhaglen o weithiau gan Elgar, Hoddinott, Holst a Torjussen dan arweiniad Owain Arwel Hughes, yn ogystal â chyngerdd corawl syfrdanol gan New Millennium Festival Chorus ar 7 o Awst.

Am wybodaeth gyflawn ynghylch yr holl ddiwyddiadau sydd i ddod ac i godi tocynnau, rhowch ganiad i Swyddfa Docynnau Neuadd Dewi Sant ar 029 2087 8444 neu daro heibio i'r wefan Gymraeg a chodi tocynnau ar lein - <http://www.stdavidshallcardiff.co.uk/>



Ogam Igam

Siop esgidiau plant yn Windsor Arcade, Penarth

Esgidiau o'r DU a'r cyfandir, yn cynnwys
Start-rite, ECCO, Ricosta, Inch blue,
Giesswein, Buckle-My-Shoe, Primigi...

**Dewis da o esgidiau ysgol, oed iau i'r ardegau
Llawer math a steil arall o esgid
Staff wedi'u hyfforddi; gellir trefnu apwyntiad**

Ar agor Llun-Sad 10 i 5.30 Ffon 029 2070 4254 www.ogam-igam.com

YSGOL GYFUN GLANTAF

Taith yr Adran Gerddoriaeth
Malta a Gozo
Gorffennaf 7fed – 12fed

Mae pawb yn edrych ymlaen yn aruthrol at ein taith eleni eto!! Mae gan yr Adran Gerdd gryn brofiad o deithio dramor erbyn hyn, o Barcelona i Lake Levico, o Torra de Mar i Lake Garda, a dyma ni nawr yn mynd am Malta a Gozo. Bydd yn rhaid cofio'r eli haul!!

Mae 49 o ddisgyblion o flynyddoedd 10-13 yn aelodau o gôr cymysg / band jazz yr ysgol a fydd yn cynnal tri chyngerdd ym Malta ddechrau Gorffennaf – un ohonynt yn yr Eglwys Gadeiriol yn y brifddinas, Valetta, a'r ddau arall yn fwy anffurfiol eu natur ar sgwâr y dref yn "Penbroke" ac un ym Mae St. Paul.

Mae'r daith yn swnio'n gynhyrfus iawn – o fordaith draw i Gozo, i ymlacio ar y traethau, o ganu yn yr Eglwys ac ar y strydoedd, i siopa mewn marchnadoedd lleol, o fynd ar daith o amgylch y tri harbwr yn Valetta, i gymdeithasu a chael hwyl ymysg ffrindiau a chyd-ddisgyblion.

Diolch yn fawr i'r athrawon am drefnu taith mor apelgar gan roi cyfle inni berfformio ymhob math o amgylchiadau newydd ac anturus, ac edrychwn ymlaen i ddweud yr hanes pan ddychwelwn.

Apêl ar gyfer Gardd Uned Anghenion Arbennig Glantaf

O'r diwedd mae'r gwaith wedi cychwyn ar ardd yr uned anghenion arbennig.

Ar ddydd Sadwrn y 19eg o Fehefin – un o ddiwrnodau poethaf y flwyddyn!! – daeth criw o rieni, athrawon a ffrindiau Glantaf i'r ysgol i gychwyn ar y gwaith anodd o glirio'r safle! Roedd pawb yn llawn egni a brwdfrydedd. Ond o fewn awr, roedd y wên ar wynebau pobl yn diflannu'n gloi wrth geisio tynnu'r gwair oddi wrth y pridd sych a chaled. Gwyrth oedd cael y cyflenwad di-stop o de a choffi gan Mrs Fry i gadw ysbryd y tîm yn fyw!

Nawr bod y safle'n glir, mae'r darn

Arsylwi Trawstaith Gwener

Cafodd disgyblion Glantaf y cyfle i arsylwi Trawstaith y blaned Gwener ar yr 8fed o Fehefin. Y tro diwethaf yr oedd yn weladwy o Gymru oedd yn y flwyddyn 1283, ac y tro nesaf fydd yn y flwyddyn 2247!!



hawsaf i ddod, gobeithio! Mae disgyblion yr uned yn barod wedi creu eu cynlluniau i'r ardd, ond rydym ni yn awr yn chwilio am unrhyw beth y gall darllenwyr y Dinesydd ei gynnig i ni.

Os oes gennych arbenigedd mewn garddio neu fod gennych gysylltiad i gael topsoil, tyrff, decking neu slabiau patio byddem yn werthfawrogol iawn o'ch cyfraniad. Hefyd pe hoffech ymuno yn y diwrnod nesaf o waith garddio, cysylltwch â'r ysgol. Plis!!

Chwaraeon

Llongyfarchiadau mawr i dimau ac unigolion am fod yn llwyddiannus

mewn gwahanol gystadlaethau yn ddiweddar. Teithiodd Tîm Hoci Cymysg Blwyddyn 7 i'r Drenewydd wedi ennill twrnamantau'r Sir a De Cymru, ac yno daethant yn fuddugol d r w y G y m r u g y f a n . Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt. Hefyd, yng ngomest y Sir fe ddaeth tîm pêl-rwyd blwyddyn 11 yn ail a thîm pêl-rwyd blwyddyn 10 yn bedwerydd. Llongyfarchiadau hefyd i Rhian Lye o flwyddyn 11 am gael ei dewis i garfan pêl-rwyd Cymru.

Llongyfarchiadau hefyd i'r holl ddisgyblion a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd Môn fis diwethaf, yn gantorian, offerynwyr, cyfansoddwyr a dawnswyr.

SIOE GERDD GLANTAF – “CHICAGO”!!!

(Tachwedd 2003)

CRYNO DDISG AR WERTH!

£10 yn unig

(yn cynnwys postio)

Cynhyrchiad proffesiynol gan gwmni “ANDANTE”.
Disgyblion Ysgol Glantaf yn cyflwyno holl sgript a chaneuon y sioe unigryw, wefreiddiol hon.

PRYNWCH HIII!

Elw yn mynd tuag at brynu adnoddau i'r ysgol.

Os oes diddordeb gennych, a wnewch chi anfon yr arian at gwmni “ANDANTE” yn uniongyrchol **O FEWN YR WYTHNOS NESAF.**

**Cyfeiriad – Cwmni “ANDANTE”,
114 Whitchurch Road, Heath, Caerdydd.
02920 231126**


Mae hwn yn gyfle i “Chicago” fod ar gof a chadw am byth!
– mi fyddwch ar eich colled os na phrynwch!

Cornel y Plant

Rhowch gylch o gwmpas y pethau gwahanol



Allwch chi ddarganfod enwau y gwledydd?



Aelbion: Twrci, Iwerddon, Lloegr, Brasil, Cymru, Ffrainc, Sbaen, Norwy

CD

Ysgol Gyfun
Gymraeg Glantaf

Dathlu 25ain

Gwledd o gerddoriaeth –
Côr Cymysg, Band Jazz,
Parti Bechgyn,
Parti Merched,
Ensemble Llinynnol

Ar werth yn yr Ysgol

£10 yn unig

Ffoniwch
02920 333090

NID yw ar gael yn eich
siopau lleol

GERAINT JARMAN AC ASHOKAN

Yn y Clwb Trydan,
Pontcanna,
Caerdydd

Nos Wener,
Gorffennaf 16

Mynediad £10

Myfyrwyr a 6ed dosbarth £6

Elw i

YSGOL PLASMAWR
CAERDYDD

Tocynnau : 029 20565658



**CAPITAL
CUISINE**

*Bwyd Rhagorol
o Gymru*

**ANGEN STAFF AR GYFER
EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
2004, CASNEWYDD**

Mae Capital Cuisine, enillwyr Gwobr Aur Gwir
Flas Cymru, angen y staff canlynol ar gyfer eu
dau safle arlwyio yn yr Eisteddfod
Genedlaethol yng Nghasnewydd.

Gweinyddion a gweinyddesau £5.00 yr awr
(£4.50 o dan 18 oed)

Cludwyr Cegin £4.80 yr awr

Cogyddion £5.50 yr awr

Cynorthwywyr Cegin £5.00 yr awr

**Dylai gweinyddion a gweinyddesau
allu siarad Cymraeg**

Darperir iwnniform a phrydiau bwyd tra ar ddyletswydd
Dyddiad cytundeb 31^{ain} Gorffennaf i 7^{ed} Awst 2004

Er mwyn cael y profiad **Bwyd o Gymru** cysylltwch â:

Colin Gray neu Mike Coram
02920 464090/07957 422546

www.capitalcuisine.co.uk